

Porth Agored Tystysgrif i Raddedigion

DAPP - Rhaglen Gadarnhau
Gweithdy 2 – Arsyllwad o ymarfer

Rheolau Sylfaenol/Disgwyliadau

- Cyfrinachedd
- Parch
- Un sgwrs/un person i siarad ar y tro
- Os ydych ar-lein defnyddiwch yr emoji llaw i fyny a'r blwch trafod yn ystod y cyflwyniad i deipio unrhyw gwestiynau sydd gennych. Cadwch y camera ymlaen a thewi eich hun pan nad ydych yn cyfrannu.
- Cymryd rhan – sicrhewch eich bod yn cyfrannu ac yn canolbwyntio.

Nodau

- Cynyddu dealltwriaeth o gyflawni ac ysgrifennu Tasg 2, yr arsylwad o ymarfer
- Ystyried ystyr cydweithio, cydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth
- Datblygu dealltwriaeth o ddimensiynau gweithio yng Nghymru a sut i ddangos tystiolaeth o hyn yn y portffolio
- Datblygu gwybodaeth am ymarfer beirniadol a sut mae hyn yn cysylltu â gwerthoedd, moeseg a dulliau cyfathrebu yn cynnwys ymarfer gwrth-wahaniaethol a gwrth-ormesol.
- Meithrin gwybodaeth am sut i ddangos tystiolaeth o ganlyniad dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC); cymhwyso dadansoddiad wrth asesu i lywio ymyriadau a gweithio ar y cyd â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.


Arsylwad o ymarfer - Tasg 2

Tasg 2

- Mae'r Portffolio yn gofyn am gwblhau un Arsylwad o Ymarfer
- Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ofyn am ganiatâd yr unigolyn ymlaen llaw ac ar adeg yr arsylwad a chynnwys ystyriaeth o ran sut y gallai'r arsylwad effeithio ar yr unigolyn/unigolion
- Rhaid i'r arsylwad fod o leiaf 30 munud o hyd neu o hyd addas i fodloni'r canlyniadau dysgu os yn rhithiol
- Dangowch dystiolaeth o'r defnydd o sgiliau a dulliau cyfathrebu, gwerthoedd, moeseg a'r Cod Ymarfer Proffesiynol
- Rhaid cynnwys cyfeiriad at y Cynnig Rhagweithiol a chyfeirio at "Mwy na Geiriau" (Llywodraeth Cymru, 2022-2027).
- Dylai'r arsylwr gael adborth gan yr unigolyn, yn dilyn yr arsylwad (Gweler tudalen 10 y llawlyfr/fersiwn hawdd ei darllen ar Moodle).
- Rhaid i'r arsylwr fod yn weithiwr cymdeithasol wedi'i gymhwyso ers 3 blynedd, nid oes angen i'r mentor gyflawni'r arsylwad.

Caniatâd/Cydsyniad

- **Rhaid cael caniatâd** yr unigolyn cyn i'r arsylwad ddigwydd a rhaid gwirio eto cyn dechrau'r arsylwad.
- Rhaid trafod effaith yr arsylwad ar yr unigolyn yn adran “cyd-destun” Tasg 2.
- Trafodwch/paratowch yr unigolyn/teulu/gofalwr ar gyfer y cais am adborth ar ôl yr arsylwad. Dywedwch wrth yr unigolyn ei bod yn iawn rhoi beirniadaeth adeiladol.



Caniatâd/Cydsyniad

- Dylai'r unigolyn roi cysyniad/caniatâd (er y gallai fod yn berthnasol gofyn i ofalwyr hefyd). Os nad yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad oherwydd galluedd, yna dylai dysgwyr ystyried ai hwn yw'r darn cywir o waith i'w arsylwi.
- Fodd bynnag, os penderfynir ei fod yn berthnasol i wneud yr arsylwad gyda rhywun sydd ag anawsterau galluedd, bydd rhaid i chi fod yn glir iawn am geisio sicrhau eich bod yn cynnwys y unigolyn a'u cadw yn ganolog i'r arsylwad.
- Dylid gofyn i blentyn am ganiatâd os yw'n briodol i'w oedran, os yw'r plentyn yn rhy ifanc i roi caniatâd gall y rhiant neu'r gofalwr roi caniatâd.
- Mae angen i chi hefyd egluro sut y daethoch i'r casgliad ynghylch pwy ddylai roi caniatâd/cydsyniad.

Cwestiwn - Tasg 2

CYD-DESTUN

- Nodwch yr amcanion gwaith cymdeithasol a rhowch ddisgrifiad byr o'r sefyllfa gan gynnwys cyd-destunau daearyddol a deddfwriaethol ac unrhyw faterion diwylliannol, ethnigrwydd ac iaith perthnasol, gan gynnwys sut y cafwyd cydsyniad/caniatâd a sut yr ydych wedi ystyried effaith yr arsylwad ar yr unigolyn sydd angen gofal a chymorth a/neu ei ofalwyr. (300 gair +/- 10%)

Cwestiwn

- Adlewyrchwch yn feirniadol ar eich dulliau a'ch sgiliau cyfathrebu yn ystod yr arsylwad; gan gynnwys sut y gwnaethoch nodi a oedd gennych y sgiliau cyfathrebu angenrheidiol i weithio gyda'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth a/neu ei ofalwyr. Rhaid i chi ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddangos integreiddio moeseg a gwerthoedd gwaith cymdeithasol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol. Rhaid i hyn gynnwys ymarfer diwylliannol ac ieithyddol sensitif ac egwyddorion y "Cynnig Rhagweithiol" a chyfeirio at "Mwy na Geiriau" (Llywodraeth Cymru, 2022-2027) (1300 gair +/- 10%).

Canlyniadau Dysgu GCC

Tasg 2 - Arsylwi ac adborth

Dyma'r 2 ganlyniad dysgu i ddangos tystiolaeth ar eu cyfer yn nhasg 2.

Yna caiff y rhain eu dadansoddi ymhellach yn “feini prawf asesu” sy’n rhoi mwy o fanylion am sut y gallwch wneud hyn (gweler atodiad 4 y llawlyfr).

1. Cymhwyso dadansoddiad wrth asesu i lywio ymyriadau

Canlyniadau Dysgu

Gall y dysgwr:

- 1.2. Defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau, i wneud asesiadau amrywiol er mwyn hybu a chefnogi llesiant

2. Gweithio ar y cyd â Defnyddwyr Gwasanaeth, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill

Canlyniadau Dysgu

Gall y dysgwr:

- 2.1. Cyfathrebu’n effeithiol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a’u gofalwyr

Cydweithio/Cydgynhyrchu

Ymarfer 1

Trafodaeth grŵp

- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr **cydweithio/cydgynhyrchu** fel y cyfeirir ato yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?
- Ystyriwch a oes iddo'r un ystyr â phartneriaeth neu ymgynghori?
- Beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r **prif 'ysgogwyr'** am ddull mwy cydweithredol mewn gwaith cymdeithasol? Gallai hyn ystyried y canlyniadau posibl, yn ogystal â deddfwriaeth berthnasol.

Diffiniad o Gydweithio a Chydgynhyrchu

Cydweithio: I weithio gyda rhywun arall ar brosiect

Geiriadur Saesneg Collins

Cydgynhyrchu: Dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu pŵer ac yn cydweithio fel partneriaid cyfartal

Dylai **cydgynhyrchu** anelu at:

- Cydnabod pobl fel asedau sydd â chyfraniad cadarnhaol i'w wneud at ddylunio a gweithredu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio sy'n adeiladu ar alluoedd

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Canolbwyntio ar y Dinesydd/Canolbwyntio ar Ganlyniadau

Mae dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- Mae pobl yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain
- Nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddweud wrthyh beth sy'n bwysig iddynt a beth sy'n rhoi ymdeimlad o llesiant iddynt, ond efallai y bydd angen help arnynt i wneud hyn
- Mae pobl eisiau gwneud y pethau sydd bwysicaf iddyn nhw, yn eu ffordd eu hunain
- Mae cryfderau pobl yn bwysig ac mae angen eu cydnabod
- Dechreuwn drwy nodi'r hyn y mae'r person am ei gyflawni, ac yna ystyried sut i gyflawni'r canlyniad hwnnw a chytuno ar gynllun i'w helpu i wneud hyn.
- Gall teulu'r person, ei ofalwyr a'r gymuned leol gyfrannu at y cynllun hwn hefyd
- Mae sgysiau ystyrlon yn ganolog i ddeall canlyniadau person

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)



Meddwl yn Feirniadol mewn Ymarfer Cydweithredol Effeithiol



Mae cydweithio effeithiol yn cynnwys nodi a rheoli risg, cymhlethdod a chynlluniau wrth gefn

Bydd amrywiaeth o 'ddatrysiadau'

- Bydd pethau'n newid
- Ni ellir rhagweld canlyniadau yn gwbl sicr
- Efallai na fydd rhai gwerthoedd a rhagdybiaethau yn ddilys yn y dyfodol
- Bydd llawer o safbwyntiau eraill ar y sefyllfa.

Rutter, L a Brown, K (2012) "Critical Thinking and Professional Judgement for Social Work"

Cydweithio Rhyngbroffesiynol


... social work practice is, as they say, everyone's business. The transition from a position of multi-professionalism, where there are many people from different disciplines working in isolation, to a state of inter-professionalism, where those professionals work collaboratively, is not as straightforward as it sounds; it impacts on everyone involved and everyone involved influences the process.

Crawford, K (2012) Interprofessional Collaboration in Social Work Practice", London: Sage Publications




Modelau Cyfranogiad


Arnstein (1969) Ladder of citizen participation



Roger Hart's Ladder of Young People's Participation



Adapted from Hart, R. (1992). *Children's Participation from Tokenism to Citizenship*. Florence: UNICEF Innocenti Research Centre.



Ymarfer 2

Modelau Cyfranogiad

- Gan ddefnyddio un o'r modelau cyfranogiad ystyriwch achos yr ydych wedi bod yn rhan ohonno lle rydych yn teimlo eich bod wedi gweithio'n dda mewn cydweithrediad ag unigolion/teuluoedd/gofalwyr. Pa gyfnod o gyfranogiad wnaethoch chi ei gyrraedd yn y darn hwn o waith?
- Yn eich barn chi, pa wahaniaeth a wnaeth eich ymarfer i brofiad yr unigolion/teuluoedd/gofalwyr?
- Beth fydddech chi'n ei nodi fel yr agwedd bwysicaf ar gydweithio yn y darn hwn o waith?

Yr Hyn sy'n Wirioneddol Bwysig

Yr hyn oedd yn wirioneddol bwysig i mi gan Mr David Britton

<https://youtu.be/dgRpfZ2WyD8>

Gwybod beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl gan Lucy Warren,
gweithiwr cymdeithasol.

<https://youtu.be/hh57sJ4it7I>

Cyd-destun Cymreig o fewn Tasg 2 - Arsylwad



Gwyliwch y 4 clip fideo “Mwy na geiriau” a defnyddiwch y rhain i helpu eich adlewyrchu beirniadol yn nhasg 2



Darparwch ystod o enghreifftiau mewn perthynas ag anghenion a defnydd iaith unigol, gan gynnwys sensitifrwydd diwylliannol




Adlewyrchwch ar brofiad personol ynghylch pam mae'n rhaid i iaith fod yn rhan annatod o asesu a darparu gwasanaethau



Cofiwch gynnwys egwyddorion y “Cynnig Rhagweithiol” a chyfeirio at “Mwy na Geiriau” (Llywodraeth Cymru, 2022-2027).

Yr Iaith Gymraeg ac ymarfer Diwylliannol Sensitif

Welsh speakers (aged 3+)




Source: 2001 Census and 2011 Census, Office for National Statistics
Areas are lower layer super output areas (LSOAs)
There are an equal number of LSOAs in each colour band



National Assembly for Wales
Senedd Research

20
SANTURAU
RENGOLUN

Census 2021
Canran y bobl 3 oed neu hŷn sy'n gallu siarad
Cymraeg, yn ôl ACEHI, 2021



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y Cynnig Rhagweithiol - Mwy Na Geiriau (Llywodraeth Cymru, 2022-2027)

- Yn syml, mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano
- Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg
- Mae darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yn hanfodol i'r 'Cynnig Rhagweithiol'
- Yr hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw darparu gwasanaeth wedi'i deilwra sy'n galluogi'r unigolyn i gael sicrwydd mai ef/hi sy'n rheoli ac yn deall y gwasanaethau a gynigir yn llawn.

Mwy na Geiriau - www.gov.wales (ar gael ar Moodle)

Mwy na Geiriau

Mwy na geiriau - Gwenan Prysor

https://youtu.be/qS-9F_qqOXo

Mwy na geiriau - Hywel Jones

- <https://youtu.be/YTzMZ4Hqo7Y>

Mwy na geiriau - Wyn Gruffydd

- <https://youtu.be/IOOs62dzOE4>

Mwy na geiriau - Iola Gruffydd

- <https://youtu.be/2iF41nNoM5M>

Sicrhewch eich bod yn gwylio'r holl glipiau fideo y gellir eu cyrchu trwy Moodle. Gall y fideos eich helpu i feddwl am eich profiad eich hun ac i fyfyrio ar pam y dylai iaith fod yn rhan annatod o'r broses asesu a darparu gwasanaethau.

Rhaid i chi gyfeirio at Mwy na Geiriau (Llywodraeth Cymru 2022-2027) o fewn yr arsylwad.



Trafodaeth grŵp

Ymarfer 3

- Pam ddylai anghenion iaith fod yn rhan annatod o'r broses asesu a darparu gwasanaethau yng Nghymru?
- Pa anghenion iaith sydd angen i chi eu hystyried yn eich lleoliad gwaith wrth weithio gydag unigolion/teuluoedd/gofalwyr?
- Beth allwch chi ei wneud i sicrhau eich bod yn gweithio i egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol?
- Pa ddeddfwriaeth/polisi/gweithdrefn y gallai fod angen i chi ei hystyried mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu ac iaith effeithiol yn eich gweithle?

Mesur y Gymraeg (Cymru), 2011

- Daeth yn ddeddf yn 2011
- Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg
- Cadarnhawyd statws swyddogol y Gymraeg
- Crëwyd hawliau i siaradwyr Cymraeg
- Yn cyflwyno dyletswyddau ar ffurf Safonau'r Gymraeg

Gall Gweinidogion Cymru bennu 5 math o safon mewn rheoliadau:

- Safonau darparu gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredol
- Safonau hyrwyddo
- Safonau cadw cofnodion




Dimensiynau Gweithio yng Nghymru

Efallai y byddwch am ystyried:

- Dirywiad diwydiannol
- Tlodi
- Diweithdra
- Cyflwr tai gwael
- Lleoliad daearyddol
- Culture and Diwylliant a Chrefydd
- Ardal lle mae amddifadedd
- Rôl menywod/dynion yn y teulu a'r gweithlu
- Materion rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol
- Grwpiau lleiafrifol
- Ethnigrwydd/hil
- Fframwaith/sefydliadau/deddfwriaeth wleidyddol
- Seilwaith.



TOWER COLLIERY, HIRWAIN.



Dimensiynau Gweithio yng Nghymru



Ystyriaeth o ADP/AOP a Materion Cydraddoldeb

- Mynediad cyfartal i wybodaeth a gwasanaethau
- Gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
- Dewis gwybodus a chydsyniad gwybodus
- Adnoddau cyfyngedig
- Atebolrwydd cyhoeddus
- Allgáu cymdeithasol
- Mynediad i'r grŵp diwylliannol
- Anghydraddoldebau iechyd.

Diwylliant a Chyfathrebu

Mae Gast a Patmore (2012) yn trafod ystyron a rennir o fewn cymunedau

O ran 'grwpiau mewnol' a 'grwpiau allanol' y gellir eu cysylltu â'r iaith a siaredir:

- Mae ieithoedd cyffredin yn helpu i ddatblygu diwylliannau
- Gall diwylliant ac arddull cyfathrebu gweithwyr cymdeithasol eu hunain effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir
- Gall iaith y lleoliad gwaith greu rhwystrau e.e. llaw-fer cyfathrebu – sut mae negeseuon yn cael eu cyfleu a'u derbyn ac ati.



Gwaith Cymdeithasol mewn Cyddestun Gwledig

Gallech chi nodi:

- Materion yn ymwneud â byw a gweithio mewn ardal wledig
- Ymyleiddio
- Problemau unigol
- 'Delfryd wledig'
- 'Anweledigrwydd'
- Anghenion gwahanol ddiwylliannau ac ethnigrwydd
- Tlodi gwledig.

Anghenion Ychwanegol

Grwpiau Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru

- Gall fod dan anfantais ee tlodi, daearyddiaeth, ardal, tai, cyrhaeddiad addysgol, gwahaniaethu
- Arwahanrwydd cymdeithasol (gall fod yn fwy mewn ardaloedd gwledig)
- Ansicr sut mae'r system yn gweithio: ceisio cymorth, atgyfeirio
- Gall fod ag anghenion iechyd cymhleth
- Ddim yn grŵp homogenaidd - yn ychwanegu at y cymhlethdodau
- Mynediad at hawliau iechyd a budd-daliadau
- Credoau iechyd ac arferion diwylliannol gwahanol
- Credoau ac arferion ysbrydol gwahanol
- Cymraeg neu Saesneg ddim yn iaith Gyntaf.



Canlyniad Dysgu 2

Gweithio ar y cyd â Defnyddwyr Gwasanaeth, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill

Canlyniadau Dysgu - Gall y dysgwr:

2.1. Cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr

Cyfathrebu Effeithiol

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae'r berthynas yn ei olygu; gan gynnwys rhannu gwybodaeth
- Mwyhau dewis a rheolaeth; tra'n aros yn onest am y dewisiadau sydd ar gael
- Ymatebolrwydd; gan gynnwys ymarferol ac emosiynol
- Dibynadwyedd; effeithio'n sylweddol ar ymddiriedaeth a hyder
- Gonestrwydd; gan gynnwys rhoi newyddion digroeso
- Dim brys; mae'n newid ansawdd y gwaith a wneir
- Parch; cysyniad trosfwaol sy'n ymwneud â gwerthoedd gwaith cymdeithasol

Koprowska, J (2020) "Communication & Interpersonal Skills in Social Work" : Learning Matters Ltd.



Cyfathrebu Effeithiol


Ystyriwch/adlewyrchwch ar y rhestr isod wrth ysgrifennu eich adfyfyrdod beirniadol o'ch arsylwad.

Mae sgiliau a dulliau cyfathrebu yn cynnwys:

- **Llafar** (ar lafar ac yn ysgrifenedig)
- **Di-eiriau** (iaith y corff, mynegiant yr wyneb)
- **Symbolaidd** (ystyr y tu ôl i weithredoedd, e.e. bod yn hwyr, edrych ar oriawr, ac ati.)
- **Agosrwydd** (gofod personol)
- **Osgo** (eistedd neu sefyll, eistedd wrth ymyl rhywun, eistedd gyferbyn)
- Mae **mathau o gwestiynau** yn gwahodd atebion penodol, ee caeedig neu agored
- **Cymharwch ansawdd y wybodaeth** a enillir trwy gwestiynau agored ac anuniongyrchol ac ymateb i giwiau.

Rhwystrau i Gyfathrebu

- Amgylchedd anghyfforddus
- Ymyriadau
- Pryder am sefyllfa arall, yr ymweliad nesaf ac ati.
- Stereoteipio a gwneud rhagdybiaethau am yr unigolyn
- Profiad negyddol o wasanaethau cymdeithasol yn y gorffennol
- Trosglwyddo – o bosibl o weithiwr blaenorol neu berson arwyddocaol.



Pa rwystrau eraill i gyfathrebu effeithiol ydych chi wedi dod ar eu traws yn eich gwaith?

Model adlewyrchu SHARE (Maclean, Finch a Tedam, 2018)

- **SEE** - Di-eiriau, iaith y corff, cliwiau gweledol, agosrwydd.
- **HEAR** - Geiriau a ddefnyddiwyd gennych, sut wnaethoch chi siarad, tôn y llais, sŵn, cyflymder y sgwrs, sut gwnaeth y person glywed yr hyn a ddywedasoch, anghenion iaith, techneg holi, a wnaethoch chi wrando?
- **ACTION**- Beth? Pam? Sut? Beth wnaethoch chi? Beth wnaethon nhw ac ati.
- **READ** - sut wnaethoch chi gofnodi, gwneud ymchwil, defnyddio cyfathrebu ysgrifenedig, sut wnaethoch chi eirio hyn? Beth ydych chi wedi'i ddarllen, beth mae'r unigolyn wedi'i ddarllen - a allai hyn effeithio ar ddealltwriaeth?
- **EVALUATE** - Sut aeth pethau, pa gasgliadau allwch chi eu cyrraedd, beth sydd angen i chi ei ystyried mewn perthynas â phŵer a gwerthoedd, beth ddysgoch chi
- <https://youtu.be/jEuq50wBRsQ>

Ymarfer 4 – Arsylwad o Ymarfer

Mewn grwpiau bach ystyriwch arsylwad posibl yr ydych yn bwriadu ei wneud ar gyfer Tasg 2 (neu'r arsylwad yr ydych eisoes wedi'i wneud) ac atebwch y cwestiynau isod.

- Disgrifiwch yn gryno y cyd-destun/sefyllfa, ee cyd-destunau daearyddol a deddfwriaethol yn ogystal ag anghenion diwylliannol, ethnigrwydd, cyfathrebu ac iaith ac amcanion gwaith cymdeithasol.
- Ystyriwch sut y byddwch yn cael caniatâd ymlaen llaw ar gyfer yr arsylwad gan yr unigolyn/teulu yr ydych yn gweithio gyda nhw a'r effaith bosibl y bydd yr arsylwi yn ei gael ar yr unigolyn/teulu.
- Trafodwch werthoedd a moeseg perthnasol, gan gynnwys rôl y Cod Ymarfer Proffesiynol.
- Adlewyrchwch ar anghenion a dulliau iaith a chyfathrebu posibl gan gynnwys sut y gwnaethoch sicrhau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Nodwch unrhyw ddamcaniaethau a/neu fodelau cyfathrebu sydd, neu a allai fod yn berthnasol i'ch arsylwad o ymarfer.


Sgiliau Cam Cyntaf ac Ail Gam

Mae Koprowska (2010) yn cyfeirio at sgiliau 'cam cyntaf' ac 'ail gam':

- Mae angen sgiliau cam cyntaf mewn cyfathrebu uniongyrchol
- Defnyddir sgiliau ail gam wrth gynllunio sut y byddwn yn cyfathrebu; meddwl, arsylwi, cymryd adborth, adolygu ac addasu cyfathrebiadau yn y dyfodol yn unol â hynny
- Cymharwch sgiliau ail gam gydag 'adlewyrchu -ar-waith' ac 'adfyfrio adlewyrchu -ar-weithredu' (Schon, 1984).
- Fideos am sut mae gofalwyr di-dâl yn teimlo mewn gwirionedd yn rhoi persbectif i'r unigolion, gallai'r rhain fod o gymorth wrth ystyried technegau cyfathrebu.
- Videos below are about how unpaid carers really feel giving the individuals perspective, these may help you when considering communication techniques.
- <https://www.youtube.com/watch?v=3OOJeAJbPIQ>
<https://www.youtube.com/watch?v=6KN3PJxhCQ>
<https://www.youtube.com/watch?v=BjrMgGZifG8>
<https://www.youtube.com/watch?v=gHQ6hQ3SQUM>

Anghenion Gwahanol

- Mae'r rhan fwyaf o gyfathrebu yn ddi-eiriau. Felly mae angen lefel uwch o hunanymwybyddiaeth arnom
- Mae graddau cyswllt llygad derbynol yn amrywio rhwng diwylliannau fel y mae dulliau eraill o gyfathrebu
- Cyswllt wyneb yn wyneb ac agosrwydd at bobl â nam ar eu clyw neu broblemau iechyd meddwl
- Gall profiad o gam-drin emosiynol arwain at anawsterau a dryswch wrth ddarllen mynegiant wyneb/dehongli tôn llais ac ati.
- Mae pobl â nam ar eu golwg yn fwy cyfarwydd â thôn llais, cyflymder lleferydd a symudiadau corff mwy
- Gall cyswllt wyneb yn wyneb aflonyddu ar bobl ag awtistiaeth a gall adnabod emosiwn fod yn anodd.
- Mae ymchwil yn awgrymu gwahaniaethau posibl rhwng y rhywiau mewn cyfathrebu – mae menywod yn amgodio a dadgodio'n well na dynion ac yn meithrin cydberthynas a gwenu'n amlach? (Hall, 2006)



CYFATHREBU DI-EIRIAU

Geiriau llafar 7%

Tôn y llais 38%

Di-eiriau 55%

Beth mae'r unigolion/teuluoedd/gofalwyr yr ydym yn gweithio â hwy yn ei ddweud:

...the majority of interviewees cited effectiveness 'knowing what they're doing' and 'doing what they say they're going to do' as being the most important qualities for effective social work practice.

However, most interviewees did also see good communication skills, sensitivity and consideration as essential to forming a good collaborative working relationship with social work practitioners.

Amanda Moss 2015



Beth mae'r unigolion/teuluoedd/gofalwyr yr ydym yn gweithio â hwy yn ei ddweud:

"Rwyf wedi dysgu llawer ynghylch sut i siarad gyda fy mab oddi wrth ei weithiwr cymdeithasol."

"Fel arfer, mae fy ngweithiwr yn hwyr ac yn edrych ar ei oriau wrth pan mae gyda mi."

"Mae gan fy ngweithiwr cymdeithasol ffordd hyfryd ac mae hi wastad yn fy nhrin gyda pharch."

"Yr hyn yr wyf i eisiau fwyaf yw gweithiwr cymdeithasol sy'n gwybod ei waith ac sy'n medru cael yr help yr wyf i ei angen i mi"

"Waeth pa bryd y byddaf yn gofyn am help, mae rhywun yn dweud wrthyf pa mor brysur yw'r gweithwyr cymdeithasol a pha mor galed yw eu gwaith."

Adborth a sylwadau gan bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu eu gofaluwr

- Ar ôl yr arsylwad, gofynnir i'r unigolyn a/neu ei ofalwr am adborth/safbwyntiau ar sut aeth pethau yn eu barn nhw
- Cymerwch amser i drafod hyn gyda nhw ymlaen llaw
- Os yw'r arsylwad yn un rhithiol neu drwy alwad ffôn efallai y bydd angen i chi ystyried ymlaen llaw y ffordd orau o gael adborth gan yr unigolyn.
- Gallwch ddylunio eich dulliau adborth eich hun os yw hyn yn fwy priodol ar gyfer yr unigolyn yr ydych yn gweithio ag ef, yn wir, mae hyn yn cael ei annog.
- Gellir defnyddio'r adborth hwn yn Nhasg 1 rhan (b) i adlewyrchu ar adborth gan unigolion rydych yn gweithio gyda nhw a sut mae wedi effeithio ar eich ymarfer.

- Gallwch ddylunio eich dulliau adborth eich hun os yw hyn yn fwy priodol ar gyfer yr unigolyn yr ydych yn gweithio ag ef, yn wir, mae hyn yn cael ei annog.
- Mae fersiwn hawdd ei darllen ar gael os ydych am anfon y cwestiynau at yr unigolyn
- Mae'r fersiwn hawdd ei darllen ar gael ar Moodle



Oedd



ryw fath



na



Adborth gan y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw



Ymarfer 5

Gan ystyried yr adborth/sylwadau rydych chi wedi'u cael gan yr unigolion/teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw, defnyddiwch un gair neu frawddeg fer i ateb y cwestiynau isod.

- Beth hoffech chi i bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw ei ddweud amdanoch chi?
- Beth hoffech chi i weithwyr proffesiynol eraill ei ddweud?
- Os yw'r rhain yn wahanol, pam felly?



Arsylwadau Rhithiol

Lle bo modd, gwnewch yr arsylwad wyneb yn wyneb, fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl mae arsylwi rhithiol yn caniatáu digon o le i fodloni'r canlyniadau dysgu

Ystyriwch:

- Dulliau a sgiliau cyfathrebu; goresgyn rhwystrau i hyn mewn sgwrs rhithiol. Sut wnaethoch chi gefnogi pobl i gymryd rhan?
- Amgylchedd - a yw'r unigolyn mewn lle diogel, a yw'n gallu canolbwyntio, a yw dylanwadau allanol yn effeithio ar y rhyngweithio? Mae angen i chi adlewyrchu'n feirniadol ar y sgwrs gan ystyried yr heriau.

TASG 2 Adborth dinasyddion ar aseiniadau

CRYNODEB – Oedolion

O safbwynt defnyddiwr gwasanaeth;

Pethau

- Cadarnhaol Roedd yn amlwg bod rhai dysgwyr wedi ystyried meddyliau, teimladau ac anghenion cyfathrebu'r unigolyn.
- "Roedd y dysgwr yn "deall yr hyn roeddwn i'n ei ddweud a sut roeddwn i'n teimlo", gwnaeth un arall sylw ar ba mor dda roedden nhw'n "teimlo'n rhan o'r broses".

Pethau Negyddol

- Diffyg cyfeiriad at gydweithio â'r unigolyn
- Gormod o ffocws ar y dysgwr yn cyflawni gofynion y dasg yn hytrach na bod yr unigolyn wrth wraidd yr ymyrraeth, gyda'u holl anghenion cyfathrebu yn cael eu cefnogi mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person.
- Gweler atodiad 12 y llyfr gwaith am adborth mwy manwl.

Crynodeb

- Gwnewch yr arsylwad cyn gynted â phosibl
- Sicrhewch ganiatâd yr unigolyn ymlaen llaw ac ar adeg yr arsylwad
- Ystyriwch (adlewyrchwch ar) effaith yr arsylwad ar yr unigolyn yng nghyd-destun adran Tasg 2
- Ystyriwch ganlyniadau dysgu GCC ar gyfer y dasg hon a sut y byddwch yn eu cyflawni
- Rhowch y manylion yn yr adran cyd-destun gan sicrhau eich bod yn cwmpasu amcanion, cyd-destun daearyddol a deddfwriaethol yn ogystal â diwylliant, ethnigrwydd, anghenion iaith a chael caniatâd/effaith
- Defnyddiwch fyfyrddod beirniadol i fyfyrion ar; dulliau cyfathrebu, cydweithio, mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person, gwerthoedd a moeseg (gan gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol), y "cynnig gweithredol" a Mwy na Geiriau yn Unig.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiwn yn llawn ac yn rhoi cyfeiriadau
- Sicrhewch eich bod yn trafod yr hoffai'r arsyllwr gael adborth ar ôl yr arsylwad gan yr unigolyn a chynnwys yr adborth hwn yn eich cyflwyniad terfynol.

Gofynion Gweithdy 3

- Cwblhewch, mewn trafodaeth â'ch mentoriaid, drafft o Dasg 1 rhan (a) o'r portffolio
- Mewn trafodaeth â'ch mentor/goruchwyliwr, ystyriwch achos addas ar gyfer yr aseiniad diogelu Tasg 3 i'w drafod yn y gweithdy nesaf.
- Gweler Tasg 3 y portffolio a'r canlyniadau dysgu yn y llawlyfr am fanylion pellach
- Ewch i hyb Gofal Cymdeithasol Cymru ac edrychwch ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag Asesu a Diogelu (Cod Ymarfer)
<https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu>

Gwerthusiad

Beth yn eich barn chi weithiodd yn dda yn y gweithdy/beth oedd yn ddefnyddiol i chi heddiw?

A oedd unrhyw beth nad oeddech yn meddwl a weithiodd cystal?

A oes gennych unrhyw awgrymiadau am ffyrdd y gallwn wella'r gweithdai hyn?

- Bydd yr hyfforddwyr yn eich gadael am 5 munud i wneud gwerthusiad o'r diwrnod.
- A fyddai modd i un ohonoch gymryd nodiadau o'r adborth gan y grŵp a'i drosglwyddo i'r hyfforddwr (naill ai teipiwch yn y blwch trafod/sgwrsio os ar-lein neu ar siart droi os wyneb yn wyneb).

Diolch.